## Sefydlu Ffederasiwn Cyrff Llywodraethu Ysgolion

# Adroddiad Cynnig

**Ysgol Fabanod Cwmaber ac Ysgol Iau Cwmaber**



Cyfnod Ymgynghori Ffurfiol: 2 Medi 2024 – 1 Hydref 2024

Mae'r ddogfen hon wedi'i chyhoeddi yn unol â gofynion statudol Rheoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2014 Llywodraeth Cymru.



**John Taylor**

Cadeirydd y Llywodraethwyr

Ysgol Fabanod Cwmaber ac Ysgol Iau Cwmaber



**Keri Cole**

Prif Swyddog Addysg

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

# RHAGAIR

Mae ffedereiddio ysgolion yn broses gyfreithiol sy’n galluogi rhwng dwy a chwe ysgol i gydweithio drwy strwythur ffurfiol drwy rannu corff llywodraethu a fydd yn gwneud penderfyniadau er lles gorau’r holl ysgolion, staff a dysgwyr sy’n rhan o’r ffederasiwn hwnnw.

Mae ysgolion sy’n rhan o’r ffederasiwn yn gallu cydweithio i rannu arferion da, arbenigedd ac adnoddau er budd pob ysgol yn y ffederasiwn gyda’r nod cyffredinol o godi safonau.

Mae cyrff llywodraethu Ysgol Fabanod Cwmaber ac Ysgol Iau Cwmaber wedi cyfarfod yn unigol ac ar y cyd â'r Awdurdod Lleol i hyrwyddo proses ffedereiddio ffurfiol sy'n cynnwys y ddwy ysgol.

Mae cyrff llywodraethu’r ddwy ysgol wedi cydweithio dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf ac mae hyn yn parhau i gael effaith gadarnhaol ar y ddwy ysgol.

Tra bydd y ddwy ysgol yn parhau i fod â’u hunaniaeth unigol eu hunain o ran enw, diwylliant, ethos a pharhau i reoli eu cyllidebau eu hunain, mae’r broses hon yn golygu sefydlu un corff llywodraethu i lywodraethu’r ddwy ysgol.

**Am beth mae’r llyfryn hwn?**

Mae'r Awdurdod Lleol yn gyfrifol am hyrwyddo safonau addysgol uchel ac am gyflwyno addysg gynradd ac uwchradd effeithlon. Ystyrir bod cael arweinwyr effeithiol yn ei ysgolion yn ganolog i hyn ac mae’n her sy’n wynebu cynghorau ledled Cymru.

O’r herwydd, mae’r Adroddiad Cynnig hwn yn nodi’r achos dros newid y trefniadau arwain a llywodraethu yn Ysgol Fabanod Cwmaber ac Ysgol Iau Cwmaber.

Mae’r ddau gorff llywodraethu yn cynnig y datblygiad ffedereiddio ffurfiol hwn ac mae’r ddogfen hon wedi’i pharatoi ar y cyd gan y cyrff llywodraethu a’r Awdurdod Lleol i ddarparu gwybodaeth i’ch galluogi i wneud penderfyniad gwybodus ynghylch y cynnig.

Edrychwn ymlaen at gael eich barn ar y cynnig.

| TABL CYNNWYS | |
|---|---|
| **Rhagymadrodd**<br>➢ Rhagair<br>➢ Am beth mae'r llyfryn hwn? | |
| **Ffedereiddio**<br>➢ Beth yw ffedereiddio?<br>➢ Beth sy'n gwneud ffedereiddio llwyddiannus?<br>➢ Beth yw heriau ffedereiddio?<br>➢ Deddfwriaeth<br>➢ Sefydlu ffederasiwn a gynigir gan Gyrff Llywodraethu | |
| **Y Cynnig**<br>➢ Beth ydym yn ei gynnig?<br>➢ Gwybodaeth cefndir<br>➢ Beth fydd effaith y cynigion?<br>➢ Trefniadau Derbyn<br>➢ Cyfansoddiad y Corff Llywodraethu | |
| **Proses Ymgynghori**<br>➢ Â phwy ydym yn ymgynghori?<br>➢ Llais y Disgybl<br>➢ Cyfnod Ymgynghori a Dyddiadau Allweddol | |
| **Camau nesaf**<br>➢ Proses Gwneud Penderfyniad<br>➢ Dweud eich dweud | |

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Gellir darparu gwybodaeth hefyd mewn fformatau, ieithoedd eraill ac ar ffurf copi caled ar gais.

Cysylltwch â ni ar 01443 864817 / Ysgolionyr21ainGanrif@caerffili.gov.uk i drefnu hyn.

Fel arall, mae copïau caled hefyd ar gael gan:

**Ysgol Fabanod Cwmaber**
Bryngelli Terrace
Abertridwr

029 2083 0248
CwmaberInfant@sch.caerphilly.gov.uk

**Ysgol Iau Cwmaber**
Brynhafod Road
Abertridwr

029 2083 2231
CwmaberJunior@sch.caerphilly.gov.uk

# Ffedereiddio

**Beth yw ffedereiddio?**

Mae ffedereiddio ysgolion yn broses gyfreithiol sy’n galluogi ysgolion (rhwng dwy a chwech) i gydweithio drwy broses strwythuredig ffurfiol drwy rannu corff llywodraethu a fydd yn gwneud penderfyniadau er budd gorau’r holl ysgolion, staff a disgyblion sy’n rhan o’r ffederasiwn hwnnw.

Bydd y cyrff llywodraethu presennol yn cael eu diddymu a'u disodli gan un corff llywodraethu newydd gyda throsolwg strategol o'r ddwy ysgol.

Nod y ffedereiddio yw i’r ysgolion weithio mewn partneriaeth i:

- ddatblygu'r arfer ardderchog a rennir sy'n sicrhau profiadau a chyfleoedd cynyddol rhagorol i ddisgyblion a staff

- datblygu nodau cyffredin a dulliau myfyriol o addysgu a dysgu a fydd yn sicrhau bod y ddwy gymuned ysgol yn elwa ar addysg o safon.

**Beth sy'n gwneud ffedereiddio llwyddiannus?**

I fod yn llwyddiannus, mae angen i ffedereiddio fod yn seiliedig ar ymrwymiad i weithio fel grŵp o ysgolion a pharodrwydd i wneud pethau’n wahanol er budd ychwanegol pob dysgwr, eu lles a’u cyraeddiadau. Mae gweledigaeth a rennir sy’n meithrin ymddiriedaeth a chydweithrediad ar draws cymuned yr ysgol yn hanfodol. Mae profiad gan ysgolion sydd wedi ffedereiddio yn dangos y gall datblygiad yr holl ysgolion a’u cymunedau o fewn y ffedereiddio a rhannu arferion gorau helpu i wella safonau a gwella deilliannau i ddysgwyr.

Mae ysgolion sy'n ffedereiddio yn aros yn eu cymunedau ysgol ac yn cadw eu hunaniaeth unigol. Mae enw, cymeriad, gwisg ysgol ac ethos yr ysgolion unigol yn parhau heb eu newid. Mae ysgolion sydd wedi’u ffedereiddio yn cynnal eu cyllideb ddirprwyedig eu hunain ond yn gallu archwilio manteision rhannu adnoddau gan gynnwys cyfleusterau, TG, staff ac adeiladau ysgol.

Mae aelodaeth corff llywodraethu ar gyfer ffederasiwn o ysgolion bron yn union yr un fath ag aelodaeth corff llywodraethu arferol gyda'r holl randdeiliaid yn cael eu cynrychioli er bod mwy o hyblygrwydd o ran cyfrannau cynrychiolaeth pob categori o lywodraethwyr. Mae hyn yn golygu y gall corff llywodraethu ffederasiwn ddewis cyfansoddiad ac aelodaeth sy'n gweddu i'w amgylchiadau penodol cyn belled â bod ganddo 15 i 27 o lywodraethwyr a'i fod yn cadw at y gofynion a nodir yn y rheoliadau. Mae ymgorffori’r cysyniad o ffedereiddio ac ymgysylltu â staff ar bob lefel yn hanfodol i lwyddiant y broses ffedereiddio. Rôl yr uwch staff yn yr ysgolion sy’n ffedereiddio fydd egluro’r manteision posibl i staff, a allai gynnwys y cyfle i wella cyfleoedd a datblygiad dysgu proffesiynol i athrawon a gwella eu harbenigedd pwnc i ehangu a chyfoethogi darpariaeth y cwricwlwm ar gyfer pob dysgwr. Bydd angen i ysgolion hefyd ddangos parodrwydd i weld potensial

a manteision partneriaeth ffurfiol, gan gydnabod y bydd y bartneriaeth yn cryfhau nodweddion a rhinweddau ysgolion unigol o fewn y ffederasiwn.

**Beth yw heriau ffedereiddio?**

Mae rhai o'r heriau i fwrw ymlaen â ffedereiddio fel a ganlyn:

- Meithrin ymddiriedaeth rhwng llywodraethwyr a chymunedau ysgolion
- Angen sicrhau ymrwymiad llawn gan yr holl ysgolion dan sylw
- Angen datblygu a chytuno ar weledigaeth a rennir ar gyfer yr ysgol
- Angen sicrhau strwythurau llywodraethu ac arwain clir
- Angen sicrhau digon o amser i bob parti fod yn gyfforddus gyda'r newidiadau arfaethedig
- Dylai pob partner deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi'n gyfartal
- Cynyddu llwyth gwaith llywodraethwyr, yn enwedig yn ystod cyfnod dechrau a blwyddyn gyntaf ar ôl sefydlu ffederasiwn
- Posibilrwydd colli llywodraethwyr profiadol
- Materion gweithredol – llwyth gwaith cynyddol ar gyfer un pennaeth
- Arolygiadau Estyn – ar hyn o bryd, mae Estyn yn arolygu pob ysgol mewn ffederasiwn ar wahân

Er mwyn i ffedereiddio lwyddo, mae'n hollbwysig datblygu ymddiriedaeth rhwng y llywodraethwyr a chymunedau ysgolion unigol. Mae hefyd yn gofyn am ymrwymiad llawn gan yr ysgolion dan sylw a gweledigaeth a rennir ar gyfer datblygiad y ffederasiwn.

Oherwydd y cydweithio anffurfiol llwyddiannus a sefydlwyd eisoes rhwng y ddwy ysgol, aethpwyd i'r afael yn llwyddiannus â mwyafrif yr heriau a nodwyd ynddynt eisoes.

**Deddfwriaeth**

Darperir y fframwaith deddfwriaethol ar gyfer ffedereiddio ysgolion gan Ddeddf Addysg 2002, Mesur Addysg (Cymru) 2011 a Rheoliadau 2014. Mae'r rhain yn nodi sut y dylid ffurfio corff llywodraethu ysgol ffederal, sut y gall ysgolion ymuno â'r ffederasiwn neu ei adael a sut y gellir diddymu ysgol ffederal.

Mae cyrff llywodraethu Ysgol Fabanod Cwmaber ac Ysgol Iau Cwmaber, ynghyd â Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (yr Awdurdod Lleol), yn cynnig defnyddio'r pwerau a roddwyd iddo gan Reoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2014

**Sefydlu Ffederasiwn a gynigir gan Gyrff Llywodraethu**

(ar y cyd â'r Awdurdod Lleol)

Rhaid i gyrff llywodraethu sy'n penderfynu ffedereiddio wneud hynny yn unol â phroses sydd wedi'i rhagnodi yn Rheoliadau 2014, ar ôl ymgynghori â'r rhieni, y gofalwyr, y staff, y dysgwyr, yr awdurdod lleol, pob undeb staff ysgol, pob llywodraethwr sefydledig (os yw'n briodol), awdurdodau esgobaethol neu unrhyw gorff crefyddol priodol arall (os yw'n berthnasol), ac unrhyw un arall yng nghymuned yr ysgol.

Wrth drafod a gwneud penderfyniadau ynglŷn ag a ddylent fynd ymlaen i ffedereiddio, mae'n hanfodol bwysig bod cyrff llywodraethu yn gwneud y canlynol:

- ystyried yn fanwl y manteision a'r risgiau sy'n gysylltiedig â sefydlu ffederasiwn o ran yr effaith ar gyflawniadau plant a phobl ifanc ac ansawdd addysg yn neu ar draws yr ysgolion sy'n cymryd rhan yn y trafodaethau
- ceisio ac ystyried gwybodaeth am bob ysgol sy'n rhan o'r trafodaethau, yn enwedig o ran perfformiad, cyllid, cyfleusterau ac adeiladau ysgolion, er mwyn sicrhau y caiff penderfyniadau eu gwneud yn agored ac ar sail tystiolaeth gadarn
- sicrhau bod awdurdodau lleol yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw ddatblygiadau ac yn cymryd rhan yn y datblygiadau hynny
- sicrhau bod y broses o ymgynghori a gwneud penderfyniadau yn cydymffurfio â Rheoliadau 2014

# Y Cynnig

**Beth ydym yn ei gynnig?**

➢ **Sefydlu Ffederasiwn Ysgol Fabanod Cwmaber ac Ysgol Iau Cwmaber.**

Enw arfaethedig y ffederasiwn yw *'Ffederasiwn Ysgol Fabanod Cwmaber ac Ysgol Iau Cwmaber'.*

Os caiff y cynnig ei dderbyn, bydd y ffederasiwn yn dod i rym ar ddiwrnod cyntaf y tymor ysgol newydd ym mis Ionawr 2025, er y cynigir datblygu cydweithio ymhellach dros y misoedd nesaf.

Mae cyrff llywodraethu Ysgol Fabanod Cwmaber ac Ysgol Iau Cwmaber wedi ymgynghori â'r awdurdod lleol (Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili) ac maent i gyd yn cefnogi'r cynnig.

**Gwybodaeth cefndir**
Mae'r ddwy ysgol wedi cydweithio ers mis Medi 2020.

Mae'r dull cydweithredol hwn yn parhau i fod ar waith ac yn parhau i gael effaith gadarnhaol ar y ddwy ysgol.

| **Tabl 1: Nodweddion Ysgol (2023)** | | |
|---|---|---|
| | **Ysgol Fabanod Cwmaber** | **Ysgol Iau Cwmaber** |
| Math o Ysgol | Ysgol Gymuned | Ysgol Gymuned |
| Ystod Oedran | Babanod 3–7 oed | Plant iau 7–11 oed |
| Cymysgedd Rhyw | Cymysg | Cymysg |
| Iaith | Saesneg | Saesneg |
| Lleoliad | Abertridwr, Caerffili | Abertridwr, Caerffili |
| | | |
| Capasiti | 136 | 149 |

| | | |
|---|---|---|
| Nifer Derbyn | 30 | 30 |
| Disgyblion ar y Gofrestr, 2023 * | 118 | 116 |
| Prydau ysgol am ddim * | 35.6% | 31.3% |
| Cymhareb Disgybl Athro * | 24.1 | 24.7 |
| % Presenoldeb yn ystod y flwyddyn * | 94.7% | 92.8% |
| | | |
| Categori Llywodraeth Cymru | Gwyrdd | Gwyrdd |
| Estyn | Da | Da |

*Mae'r ffigurau'n adlewyrchu'r rhai a gyhoeddwyd ar wefan Fy Ysgol Leol

Lleolir y ddwy ysgol 0.2 milltir oddi wrth ei gilydd yn unig.

Mae'r ddwy ysgol yn rhannu'r un Pennaeth.

Trwy ymuno â phroses ffedereiddio, gall y ddwy ysgol gydweithio o dan arweinyddiaeth a rennir i ddefnyddio eu cryfderau i wella safonau ar draws y ffederasiwn a gyda'i gilydd fynd i'r afael â meysydd sydd angen eu gwella.

Trwy ffedereiddio o dan un corff llywodraethu, gellir gwella ymhellach yr hinsawdd o ymddiriedaeth, didwylledd a pharodrwydd i gydweithio sy'n bodoli eisoes.

**Beth fydd effaith y cynigion**

- ✓ Bydd un corff llywodraethu gyda throsolwg strategol o'r ddwy ysgol yn y ffederasiwn.
- ✓ Mae pob ysgol yn cadw ei henw, categori, cyllideb, Pennaeth, staff, gwisg ysgol ac yn parhau yn ei chymuned.
- ✓ Bydd pob ysgol yn cael ei harolygiad Estyn ei hun, er bod y rhain yn cael eu cydlynu fwyfwy i ddigwydd ar yr un pryd i bob ysgol yn y ffederasiwn er mwyn lleihau straen ac aflonyddwch.
- ✓ Gall corff llywodraethu ffederasiwn barhau i ddefnyddio adnoddau a staff ar draws y ffederasiwn i wella canlyniadau addysgol pob disgybl.
- ✓ Rhaid cadw trywydd archwilio a chynhyrchu cyfrifon ar wahân ar gyfer pob ysgol yn y ffederasiwn.
- ✓ Ni all y corff llywodraethu Ffederal fynnu bod staff presennol yn gweithio ar draws y ddwy ysgol, ond gall drafod ag undebau staff yr ysgol ynghylch a ellir cyflwyno contractau hyblyg.
- ✓ Gellir penodi staff newydd i weithio ar draws ysgolion yn y ffederasiwn.
- ✓ Ni fydd unrhyw newid i'r categori oedran presennol, cyfrwng iaith na threfniadau dalgylch ar gyfer y naill ysgol na'r llall.

Gan mai dim ond proses lywodraethu'r ysgolion fydd yn cael ei heffeithio o ganlyniad i'r cynnig hwn, nid oes angen cynnal Asesiad Effaith Integredig yn yr achos hwn.

**Trefniadau Derbyn**

Ni fydd y trefniadau derbyn ar gyfer pob ysgol yn newid. Yr Awdurdod Lleol yw'r awdurdod derbyn ar gyfer pob ysgol. Bydd rhieni yn gwneud cais am le ar gyfer eu plentyn yn yr ysgol o'u dewis, nid yn y ffederasiwn, gan fod pob ysgol yn y ffederasiwn yn ysgol ar wahân. Os na roddir lle i'r plentyn yn yr ysgol y mae'r rhieni'n ei dewis, bydd yn rhaid gwneud cais ar wahân am fynychu ysgol wahanol. Mae hyn yn wir hyd yn oed os mai'r ail ysgol y gwneir cais amdani yw'r ysgol arall yn y ffederasiwn.

**Cyfansoddiad y Corff Llywodraethu**

Mae'r rheoliadau'n nodi y dylai fod gan bob corff llywodraethu ffederal o leiaf 15 o Lywodraethwyr ac uchafswm o 27 gyda chyfansoddiad arfaethedig yn cynnwys y canlynol ar gyfer pob ysgol ffederal:

(a) o leiaf un ond dim mwy na dau riant-lywodraethwr a etholir neu a benodir i gynrychioli buddiannau rhieni disgyblion cofrestredig yn yr ysgol honno;

(b) o leiaf un ond dim mwy na dau athro-lywodraethwr;

(c) o leiaf un ond dim mwy na dau staff-lywodraethwr;

(d) o leiaf ddau ond dim mwy na phedwar llywodraethwr awdurdod lleol;

(e) o leiaf ddau ond dim mwy na phedwar llywodraethwr cymunedol;

(f) pennaeth neu bennaeth dros dro yr ysgol ffederal, os penodir un, neu bennaeth neu bennaeth dros dro pob ysgol yn y ffederasiwn oni bai bod yr unigolion hynny yn ymddiswyddo fel llywodraethwr.

| | **Argymhellir** |
|---|---|
| Wedi'u penodi gan yr Awdurdod Lleol | 4 |
| | |
| Pennaeth | 1 |
| Athrawon | 2 |
| Staff | 2 |
| Rhiant-lywodraethwyr | 4 |
| Llywodraethwr Cymunedol<br>- wedi'u penodi gan y gymuned<br>- wedi'u penodi gan y corff llywodraethu | 5<br>4<br>1 |
| **CYFANSWM** | **18** |

Mae'r nifer a argymhellir yn deillio o'r uchafswm ym mhob categori a ganiateir o fewn y rheoliadau mewn perthynas â rhieni-lywodraethwyr a llywodraethwyr cymunedol. Er mwyn darparu ar gyfer y niferoedd presennol, cynigir y bydd unrhyw lywodraethwyr presennol sy'n cael eu dadleoli yn cael eu cyfethol am weddill eu cyfnod yn y swydd. Wedi hynny, gellir lleihau'r niferoedd i gyd-fynd â Rheoliadau Llywodraeth Cymru dros amser.

# Proses Ymgynghori

Mae'n ofyniad statudol gofyn am farn rhanddeiliaid ar gynigion ffedereiddio, p'un a yw'r ffedereiddio wedi'i gynnig gan y cyrff llywodraethu ysgolion priodol neu'r Awdurdod Lleol.

Mae'r ddogfen hon yn cynrychioli'r cyfrifoldeb o dan Reoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2014 i ymgynghori â rhanddeiliaid priodol.

Prif ddiben y ddogfen hon yw darparu gwybodaeth a chasglu barn rhanddeiliaid a nodwyd.

### Â phwy ydym yn ymgynghori?

Bydd y cyrff llywodraethu a'r Awdurdod Lleol yn ceisio barn y rhanddeiliaid a ganlyn:

- Disgyblion, staff, llywodraethwyr a rhieni/gwarcheidwaid y ddwy ysgol
- Cymdeithasau staff addysgu a chymorth

Bydd y ddogfen ymgynghori hefyd yn cael ei dosbarthu i'r canlynol:

- Aelodau ward lleol ar gyfer pob ysgol.
- Cynghorau Ysgol
- Estyn
- Bwrdd Addysg yr Esgobaeth Gatholig
- Pwyllgor Craffu Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol
- Gwasanaeth Cyflawni Addysg
- Unrhyw unigolion eraill a ystyrir yn briodol

### Llais y Disgybl

Mae llais pobl ifanc yn ymwneud â'u cynnwys fel cyfranogwyr gweithredol yn natblygiad, darpariaeth, rheolaeth a gwelliant eu profiad addysgol a phrofiad myfyrwyr ac mae angen iddo fod wrth wraidd y gwaith cynllunio, darparu a gwerthuso.

Mae gan bobl ifanc yr hawl i weithredu i fynegi eu barn ar bob mater sy'n effeithio arnynt ac i'w safbwyntiau gael eu clywed a bod sylw dyledus yn cael ei roi i'w safbwyntiau yn unol â'u hoedran a'u haeddfedrwydd, i wella'r prosesau gwneud penderfyniadau, i rannu safbwyntiau ac i gymryd rhan fel dinasyddion a hwyluswyr newid.

Bydd ystyriaeth yn cael ei roi i sut mae'r dysgwyr a chynghorau ysgol yn cael gwybodaeth.

### Cyfnod Ymgynghori a Dyddiadau Allweddol

**Mae'r broses ymgynghori ffurfiol yn dechrau ddydd Llun 2 Medi 2024**

Bydd gwybodaeth ar gael ar wefan y Cyngor a chyhoeddir yr holl ddogfennaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Bydd copi caled o'r cynnig hefyd ar gael i'w archwilio ar bob adeg resymol yn y ddwy ysgol yn y ffederasiwn arfaethedig.

Os hoffech gael yr wybodaeth hon mewn unrhyw fformat arall, er enghraifft print bras, neu gymorth gyda dehongli mewn iaith wahanol, cysylltwch â ni ar 01443 864817 / Ysgolionyr21ainGanrif@caerffili.gov.uk fel y gellir gwneud y trefniadau angenrheidiol i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

**Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yw hanner nos, ddydd Mawrth 1 Hydref 2024**

Bydd y sylwadau a ddaw i law o'r broses ymgynghori yn cael eu hadrodd i'r cyrff llywodraethu a'r Awdurdod Lleol ar gyfer penderfynu.

Yn anffodus, ni fyddwn yn gallu ystyried unrhyw ymatebion a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn.

# Camau nesaf

### Gwneud penderfyniadau

Mae swyddogion wedi cyfarfod â'r holl Gyrff Llywodraethu dan sylw sydd wedi cytuno'n ffurfiol i symud ymlaen i ymgynghoriad ffurfiol ynghylch y cynnig. Er y gallai'r Cyrff Llywodraethu symud ymlaen ar eu pennau eu hunain, mae pob Corff Llywodraethu wedi gofyn i'r Awdurdod Lleol ystyried y cynnig a chytuno i symud ymlaen mewn partneriaeth â'r ysgolion unigol.

➢ ***Ar ôl ymgynghori***
- Cyrff llywodraethu a’r Awdurdod Lleol i ystyried ymatebion
- Darparu adroddiad cryno o'r ymatebion i bob corff llywodraethu ei ystyried
- Cyrff llywodraethu a’r Awdurdod Lleol yn cyfarfod i wneud y penderfyniad terfynol ynghylch a ddylid bwrw ymlaen â’r cynnig fel yr amlinellwyd a gwneud y penderfyniad terfynol ar natur ac amseriad y ffedereiddio.

Yn amodol ar gymeradwyaeth i symud ymlaen:

➢ ***Gweithredu***
- Cyrff llywodraethu a’r Awdurdod Lleol yn hysbysu rhanddeiliaid am y penderfyniad
- Awdurdod Lleol mewn ymgynghoriad â'r cyrff llywodraethu yn cysylltu ynghylch yr Offeryn llywodraethu newydd ac ethol a phenodi llywodraethwyr newydd
- Ystyried gwneud trefniadau ar gyfer cymorth i lywodraethwyr ar gyfer yr ysgolion sy’n ffedereiddio yn y cyfamser cyn bod y corff llywodraethu ar y cyd yn ei le
- Swyddogaethau a chyfrifoldebau uwch arweinyddiaeth wedi'u ffurfioli
- Cyd-bwyllgor y llywodraethwyr yn cael ei sefydlu ac yn darparu cynllunio strategol ac yn cyflwyno'r ffederasiwn
- Un corff llywodraethu yn cyfarfod i ethol cadeirydd ac is-gadeirydd
- Calendrau a phrosesau proffesiynol yn cael eu halinio
- Edrych ar sut y gall technolegau newydd gynorthwyo datblygiad y ffederasiwn

➢ ***Esblygiad***

- Rhoi systemau a strwythurau, polisïau ac arferion newydd ar waith;
- Rolau staff newydd yn gweithredu (strwythur a phroses Rheoli Perfformiad);
- Cynllun Datblygu Ysgol yn targedu adnoddau ac arbenigedd at godi safonau ar draws y ffederasiwn;
- Monitro ac adolygu gan y Corff Llywodraethu, y staff a'r Awdurdod Lleol.

**Dweud eich dweud**

Mae eich barn yn bwysig ac rydym am i chi fynegi eich barn wrthym ar y newidiadau rydym wedi'u cynnig yn y ddogfen hon. Hoffem i chi ystyried yr wybodaeth sydd yn y ddogfen a hoffem gael eich barn ynghylch a ydych yn cefnogi'r cynnig ai peidio. Croesewir pob barn sy'n cefnogi neu'n gwrthwynebu'r cynnig. Dyma'ch cyfle i ofyn cwestiynau a gwneud sylwadau a fydd yn cael eu hystyried pan fydd y Cyngor yn penderfynu sut i symud ymlaen.

Os hoffech wneud sylw ar y cynnig, gallwch wneud hyn drwy:

- Lenwi'r ffurflen ymateb ar-lein ar wefan y Cyngor
- Llenwi ffurflen ymateb wedi'i hargraffu a'i dychwelyd i'r naill ysgol neu'r llall
- E-bostio eich sylwadau at y Tîm Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yng Nghaerffili YsgolionYr21ainGanrif@caerffili.gov.uk

---

Sylwer mai dim ond sylwadau ysgrifenedig y gallwn eu cael, naill ai drwy'r ffurflen ar-lein, ffurflen bapur neu drwy e-bost. Rhaid i chi gynnwys eich enw llawn a'ch cyfeiriad post fel rhan o'r wybodaeth a ddarperir.

I gael rhagor o wybodaeth am sut rydym yn prosesu'r wybodaeth a'ch hawliau, dilynwch y ddolen hon:
www.caerffili.gov.uk/caerphillydocs/foi/privacynotices/privacy-notice-consultations-surveys-cy.aspx